

Cyd-destun yr ysgol a’r gymuned

Lleolir yr ysgol yma yn Ne Cymru. Yn ôl World Population Review (2020), mae yna 311,408 o bobl yn byw yn y dref a’r ardaloedd o’i hamgylch. Ardal drefol ydyw gyda’r môr yn ei gwrdd. Rhai ardaloedd ac adnoddau o fewn yr ardal yw canolfannau siopau mawr, pyllau nofio, amgueddfeydd yn ogystal â Chastell. Yn ôl adroddiad Estyn (2018), yr oedd yna 482 o ddisgyblion o fewn yr ysgol rhwng 3 ac 11 oed. Yn ogystal â hyn, yr oedd yna 70 o blant rhan amser o fewn y dosbarth meithrin. O fewn yr adeilad newydd, sonia Estyn (2018) fod yna 17 o ddosbarthiadau o fewn yr ysgol hefo un dosbarth oed cymysg a dau ddosbarth arall sydd ar gyfer plant y meithrin.

Cysylltiadau rhwng yr ysgol a’r teuluoedd

Mae yna lawer o adnoddau ar wefan yr ysgol leoliad (dim dyddiad) sydd yn gwella’r perthynas rhwng yr ysgol a’r rhieni. Un o’r elfennau pwysig yw’r dogfennau hefo’r holl wybodaeth ynglŷn y profion cenedlaethol blynyddol. Yn ogystal, mae yna weithgareddau penodol i’r plant i’w gwblhau yn amser ei hun er mwyn paratoi ar gyfer y profion. Elfen arall o’r wefan yw bod yna hwb cwestiynau ar gyfer y rhieni. Os ydyw’r rhieni yn poeni am elfennau o fywyd ysgol neu angen gofyn cwestiwn penodol, mae’n ffordd i’r rhieni i gysylltu hefo’r athrawon.

Cysylltiadau rhwng yr ysgol a’r gymuned

Mae gan yr ysgol gyswllt gryf iawn hefo’r gymuned leol. Dyma esiamplau o rhai gweithgareddau sydd yn digwydd hefo’r gymuned leol o fewn cwricwlwm yr ysgol:

- Marchnad Leol - a’r ysgol hefo plant cyfnod sylfaen yr ysgol i’r farchnad leol er mwyn dysgu am nwyddau gwahanol sydd ar gael yn ogystal â dysgu delio hefo arian
- Ymweliad yr Orsaf Dan - yr orsaf dan leol yn ymweld hefo’r ysgol er mwyn dangos y gwaith y mae’r frigâd dan yn gwneud. Y plant yn cael siawns i brofi’r gwaith.
- Hwb - adeilad yr ysgol yn hwb i’r gymuned. Gwahanol weithgareddau fel clybiau dawnsio a chanu yn digwydd yn yr ysgol dros y penwythnosau ac yn y nos. Gwella’r cysylltiad rhwng yr ysgol a’r gymuned.

Adroddiad Estyn

Sonia adroddiad Estyn (2018) am y gwahanol elfennau o fywyd yn yr ysgol leoliad. Cyfeiria’r ddogfenaeth at y teimlad o fewn yr ysgol, “mae bron pob disgybl yn hpaus i’w mynychu.” (tud. 2)

A’r ddogfennaeth ymlaen i son am y perthynas sydd rhwng yr athrawon a’r disgyblion yn yr ysgol. Sonia am y ffyrdd y mae’r athrawon yn sicrhau fod llais y dysgwr yn cael ei flaenoriaethau ym mhob gweithgaredd yn y dosbarth. Yn ogystal, sonia Estyn fod yr athrawon yn esbonio’r gwaith yn effeithiol i’r disgyblion sydd yn gwella dealldwriaeth y plant.

Yn adran gofal, cymorth ac arweiniad y ddogfenaeth, sonia’r ddogfennaeth, “Mae arweinwyr ac athrawon yn meithrin cysylltiadau cadarn gyda’r rhieni...” (tud. 7) A Estyn ymlaen i amlinellu fod y’r ysgol yn sicrhau fod y rhieni yn deall lle mae ei plant ar y lefel datblygu trwy gydol y flwyddyn. Sicrha’r ysgol hyn trwy creu sesiynau pob hanner tymor hefo’r rhieni i drafod cynydd y plentyn yn ogystal a sut i ddatblygu’r sgiliau.

Amilnella Estyn yr ymrymiaeth a wna’r ysgol leoliad hefo’r gymuned leol er mwyn hybbu dysgu’r plant. “Mae’r ysgol yn cydweithio’n effeithiol gydag asiantaethau allanol sy’n mynychu’r ysgol yn rheolaidd.” (Estyn, 2018, tud. 7) Dengys hyn felly fod yr ysgol yn edrych i bobl ac adnoddau o fewn y gymuned er mwyn helpu hefo’r addysgu o fewn y dosbarthiadau.

Dechrau wrth fy Nhraed

Pwysigrwydd y cyswllt rhwng teuluoedd, ysgolion a’r gymuned

Iqbal


Creda Iqbal (2018) fod y gymuned yn rhoi cyfleoedd gwahanol i ysgolion na all yr ysgol ddarparu i’r plant ar ei phen ei hun. Gwelaf hefyd fod tair elfen yn gwella o ran yr ysgol. Y cyntaf oedd bod plant yn yr ysgolion tua 90% o’r flwyddyn academiaidd. Yn ogystal, gwelaf fod gan rieni agweddau cadarnhaol tuag at yr ysgolion lleol.

Kington a Mleczko

Sonia Kington a Mleczko (Kington et al. 2012) fod llawer o ysgolion yn anwybyddu’r cyswllt holl bwysig rhwng yr ysgol a’r gymuned. Gwaith ymchwil yw hon o fewn y llyfr sydd yn edrych ar yr effaith y mae’r perthynas rhwng y gymuned a’r ysgol yn cael ar deuluoedd a’r disgyblion o fewn y dosbarth. Yn ôl y llyfr, mae cydweithio effeithiol rhwng teuluoedd, yr ysgol a’r gymuned yn creu cymuned fwy clos.

Wrth weithio hefo’r gymuned, rho hyn cyfleoedd newydd i blant y dosbarth efallai nad ydynt yn gallu derbyn yn y cartref. Mae’n ffordd o wella dealltwriaeth y gwaith o fewn y cwricwlwm wrth i’r plant profi’r gwaith o fewn y gymuned leol.

(The Psychology Notes HQ, dim dyddiad)



Adnodd/Gweithgaredd	Pellter o’r ysgol (milltiroedd)	Amser (munudau)
Pwll nofio	5.3	14
Castell	5.1	12
Coedwig	Ar safle’r ysgol	1
Traeth	9.1	26
Amgueddfa	4	10
Marina Mor	5.6	14

Wrth edrych ar y tabl, mae’n amlwg i weld fod yna adnoddau helaeth o fewn ardal yr ysgol. Mae’r holl adnoddau yma o fewn y gymuned yn hanfodol ar gyfer addysg y plant gan eu bod nhw i gyd yn cynnig profiad gwahanol i’r plentyn. Wrth rhoi cyfleoedd gwahanol i blant o fewn bywyd ysgol, mae’n sicrhau fod pawb yn derbyn yr un cyfleoedd efallai nad yw rhai plant yn derbyn yn y cartref.

Disgwyliadau’r cwricwlwm

Yn ôl Llywodraeth Cymru (2015, tud. 2), er mwyn gallu dilyn y cwricwlwm newydd yn effeithiol, mae’n bwysig fod ysgolion yn gweithio mewn partneriaeth hefo llawer o elfennau o fywyd ysgol - yn ogystal â’r gymuned leol. “Mae *Dyfodol Llwyddiannus* yn nodi pa mor bwysig yw sicrhau bod profiadau cyfoethog yn rhan annatod o’r cwricwlwm ac o ddysgu dwfn.” (tud. 13) Dengys hyn fod y Llywodraeth yn pwysleisio pwysigrwydd gweithio hefo’r gymuned leol er mwyn ehangu profiadau’r dysgwyr.

Er mwyn gallu creu dinasyddion egwyddorol, gwybodus ar gyfer y dyfodol, creda Llywodraeth Cymru (2015, tud. 14) mae angen i ysgolion edrych ar, “Diwylliant a threfniadaeth leol a chenedlaethol.” Er mwyn gallu cwblhau hyn, anoga’r llywodraeth i ysgolion gweithio’n agos hefo lleoliadau cyfagos fel amgueddfeydd a llyfrgelloedd er mwyn gwella dealltwriaeth y dysgwyr.

Brofenbrenner

Sonia theori Brofenbrenner am yr effaith mae gwahanol elfennau o fywyd y plant yn cael ar ei dysgu. Yn ôl y wefan Exploring your mind (2020) a’r gwaith ymchwil Brofenbrener. Yn ôl Brofenbrenner, mae yna pum elfen i’w ddamcaniaeth. Yr elfen gyntaf yw’r system ficro a greda Brofenbrener mae hon yw’r system sydd yn effeithio mwyaf ar y plentyn. Creda mai’r elfennau o fewn y system ficro yw effaith y teulu, yr ysgol a’r gymuned ar ddatblygiad y plentyn. Yn system feso damcaniaeth Brofenbrenner, sonia am yr effaith y mae perthnasau rhwng y tair elfen yn effeithio ar y plentyn.



(Cherry, 2020)

Maslow

Yn ol Cherry (2020) am waith Maslow, mae yna 5 lefel gwahanol i’w waith ymchwil. Yn yr adran gymdeithasol, “The social needs in Maslow’s hierachy include such things as love, acceptance, and belonging.” (2020) Cyfeiria Kline (2020) am waith ymchwil Maslow hefyd. Sonia Kline fod hi’n anodd i ni adlewyrchu ar fywydau plant yn y cartrefi felly anoga fod bywyd ysgol yn ffordd hanfodol o gryfhau'r elfen gymdeithasol o fewn theori Maslow. Dengys hyn i ni felly fod y gymdeithas o amgylch yr ysgol yn chwarae rhan holl bwysig yn addysg y plentyn.

Cherry, K. (2020) 'The 5 Levels of Maslow's Hierarchy of Needs', *verywellmind* [blog]. 3 Mehefin. Ar gael yn: [The 5 Levels of Maslow's Hierarchy of Needs \(verywellmind.com\)](https://www.verywellmind.com/the-5-levels-of-maslows-hierarchy-of-needs/) (Darllenwyd: 31 Rhagfyr 2020)

Exploring your mind (2020) *Bronfenbrenner's Ecological Systems Theory*. Ar gael yn: <https://exploringyourmind.com/bronfenbrenners-ecological-systems-theory/> (Darllenwyd: 18 Rhagfyr 2020)

Iqbal, K. (2018) 'Community in the school and school in the community' *Optimus Education* [blog]. 12 Medi. Ar gael yn: <https://blog.optimus-education.com/community-school-and-school-community> (Darllenwyd: 21 Rhagfyr 2020)

Kington, A. et al. (2012) *Paradigms and research of educational practice*. Los Angeles: Department of education, Antioch Universtiy Los Angeles. (https://eprints.worc.ac.uk/1882/1/Kington_and_Mleczko_chapter-1.pdf)

Kline, T. (2020) 'Applying Maslow's Hierachy of Needs In Our Classrooms', *ChangeKidsLives.org* [blog]. 10 Rhagfyr. Ar gael yn: <http://www.changekidslives.org/actions-4> (Darllenwyd: 31 Rhagfyr 2020)

Konen, J. (2018) '7 Reasons You Have the Best Community for Education', *Teacher.org* [blog]. 16 Mai. Ar gael yn: <https://www.teacher.org/blog/7-reasons-why-its-important-to-think-of-your-community-as-the-best-when-it-comes-to-public-education/> (Darllenwyd: 28 Rhagfyr 2020)

Llywodraeth Cymru (2015) *Cwricwlwm i Gymru – cwrwicwlwm am oes*. Ar gael yn: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-02/cwricwlwm-i-gymru-cwricwlwm-am-oes.pdf> (Darllenwyd: 30 Rhagfyr 2020)

The Psychology Notes NQ (dim dyddiad) *What is Bronfenbrenner's Ecological Systems Theory?*. Ar gael yn: <https://www.psychologynoteshq.com/bronfenbrenner-ecological-theory/> (Darllenwyd: 30 Rhagfyr 2020)

World Population Review (2020) *Swansea Population 2020*. Ar gael yn: <https://worldpopulationreview.com/world-cities/swansea-population> (Darllenwyd: 20 Rhagfyr 2020)

Ysgol Leoliad (dim dyddiad) *YYG Lôn Las*. Ar gael yn: <https://www.ygglonlas.co.uk/> (Darllenwyd: 21 Rhagfyr 2020)